Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

5 Medi 2020

Annwyl Riant / Ofalwr,

Croeso cynnes yn ôl ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd. Croeso arbennig i rieni a gofalwyr sy'n newydd i'r Ysgol.

DIOLCH I STAFF YR YSGOL

Yn y lle cyntaf, hoffwn ddiolch o galon i holl staff yr Ysgol am eu cefnogaeth a'u hamynedd wrth i ni ymbaratoi ac addasu adeiladau'r Ysgol er mwyn croesawu'r disgyblion yn ôl yn llawn. Bu eu hawydd i ddychwelyd i'r Ystafell Ddosbarth i addysgu eich plant yn amlwg; mae ein staff yn mwynhau cwmni eich plant ac yn benderfynol o wneud eu gorau i ddarparu'r addysg orau dros yr wythnosau a misoedd nesaf.

CANLYNIADAU ARHOLIADAU ALLANOL 2020

Llongyfarchiadau gwresog i bob disgybl ar eu canlyniadau TGAU a Lefel A, sy'n benllanw gwaith caled a dyfalbarhad . Diolch yn fawr i chi fel rhieni am eich cefnogaeth ar hyd y daith a'ch parodrwydd i gydweithio gyda'r ysgol – rydym mor ymwybodol o'r bartneriaeth bwysig hon.
Diolchwn hefyd i'r staff am eu harweiniad a'u hymrwymiad i'r myfyrwyr dros y flwyddyn ddiwethaf.

BLWYDDYN 7 A'R CHWECHED YN ÔL

Cawsom ddau ddiwrnod hyfryd yng nghwmni Blwyddyn 7 a'r Chweched Ddydd Iau a Dydd Gwener. Croesawyd 190 o ddisgyblion newydd i flwyddyn 7 ar Ddydd Iau, a daeth 85 o ddisgyblion yn ôl i ymuno â Blwyddyn 12 Partneriaeth Chweched Gŵyr / Bryn Tawe; felly 180 myfyriwr yn y Chweched i gyd. Cyfanswm poblogaeth yr ysgol felly ar gyfer 2020-21 yw 1112 o ddisgyblion.
Llwyddodd y cannoedd o ddisgyblion ar y safle i ddeall a chymhwyso'r cyfarwyddiadau a roddwyd iddynt ynghylch eu hiechyd a diogelwch, ac edrychwn ymlaen at groesawu Blwyddyn 11, Blwyddyn 10, Blwyddyn 9 a Blwyddyn 8, yn ôl yn eu tro, dros y dyddiau nesaf.

NEWYDDION AM STAFF

Croesawn athrawon newydd i'r ysgol sef Miss Bethan Jones (Mathemateg), Mr Liam Bunyan (Mathemateg), a Mrs Sara Morgan (Saesneg). Mae Miss Manon Pirotte a Miss Ellie Thomas yn ymuno â thîm y cynorthwywyr dysgu. Dymunwn yn dda iddynt ar ddechrau eu hamser yn Ysgol Gyfun Gŵyr.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

AROLWG BARN RHIENI 2019-20
Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn i'r arolwg barn rhieni unwaith eto eleni a gwerthfawrogwyd eich sylwadau adeiladol. Ar sail canlyniadau'r arolwg gwelir bod y rhan fwyaf o rieni yn teimlo'n hapus gyda darpariaeth yr ysgol. Byddwn yn gweithio'n galed i ymateb i awgrymiadau a gafwyd gennych lle mae hyn yn bosib. Mae'r **Polisi Achwyno** i'w weld ar wefan yr ysgol yn ogystal ac os oes cwyn gyda chi yr hoffech ei drafod, cysylltwch â'r Pennaeth neu aelodau eraill o'r Tîm Rheoli Uwch.

OFFER YSGOL
A fyddech mor garedig â sicrhau bod eich plentyn yn dod a chas bensiliau i'r ysgol yn ddyddiol sy'n cynnwys yr offer ysgrifennu angenrheidiol megis ysgrifbin, pensiliau, rwber, uwch-oleuwyr a phren mesur. Bydd offer megis glud hefyd yn bwysig. NI FYDD MODD I'CH PLENTYN RANNU ADNODDAU Â DISGYBLION ERAILL AR UNRHYW GYFRIF.

Mae offer Mathemateg hefyd yn angenrheidiol sy'n cynnwys cyfrifiannell gwyddonol, onglydd a chwmpawd. Gellir prynu pecyn offer Mathemateg yn yr adran am £3 a chyfrifiannell gwyddonol am £7. Mae **Llyfryn Rhifedd dwyieithog** defnyddiol iawn hefyd ar werth yn yr adran am £5.

GWISG YSGOL AC EIDDO DISGYBLION
Mae cydymffurfio gyda gwisg swyddogol yr ysgol yn bwysig iawn- trowsus neu sgert ddu blaen (nid jeans, leggings), esgidiau du (heb unrhyw liw arall),siwmper ddu gyda bathodyn yr ysgol (nid 'hoody'), crys polo glas gyda bathodyn yr ysgol. A fyddech mor garedig â gosod **enwau ar eiddo** fel ein bod yn medru dychwelyd eiddo coll yn syth i'r perchennog. Mae croeso i rieni gysylltu â'r Swyddfa i ofyn am eiddo coll.

POLISI FFONAU SYMUDOL
Rhoddir caniatâd i ddisgyblion ddod â ffon symudol i'r ysgol am resymau diogelwch. Fodd bynnag rhaid eu defnyddio yn gyfrifol ar bob adeg. Ni ddylid defnyddio ffonau symudol mewn gwersi ac os gwneir hyn heb ganiatâd fe fydd y ffôn yn cael ei ddiheintio a'i gymryd oddi ar y disgybl gan yr athro a'i roi yn ddiogel yn y swyddfa tan fod rhiant yn cysylltu â'r ysgol i'w gael yn ôl.

PRESENOLDEB
100% yw'r targed ar gyfer pob unigolyn. Mae colli un diwrnod o ysgol heb reswm da iawn yn tarfu ar addysg eich plentyn yn ddiangen. Gofynnwn am eich cefnogaeth i sicrhau bod eich plentyn yn anelu i fod yn bresennol am bob dydd o Fedi tan Orffennaf, yn enwedig oherwydd y cyfnod o addysg ffurfiol a gollwyd cyn yr Haf.
Er hyn, os yw eich plentyn yn dost, neu yn arddangos unrhyw symptomau Covid-19, gofynnwn i chi eu cadw gartref, gan ddod yn ôl i'r Ysgol pan yn holliach.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

YMDDYGIAD

Ymhyfrydwn yng ngallu ein disgyblion i fihafio, ac ymddwyn yn briodol ar safle'r Ysgol. Byddwn yn mynnu bod disgyblion a myfyrwyr yn cydymffurfio a'n disgwyliadau uchel yn hyn o beth, a gwerthfawrogwn pe byddech yn gallu pwysleisio hyn i'ch plant wrth iddynt ddod 'nôl i'r Ysgol. Oherwydd y sefyllfa bresennol, bydd yr Ysgol yn delio yn llym ac yn deg ag unrhyw gamymddwyn, gan obeithio na fydd sefyllfaoedd tebyg yn codi.

MYGYDAU

Mae gofyn i bob plentyn i ddod a mwgwd i'r Ysgol o Ddydd Llun ymlaen, ac mae nifer o staff yr Ysgol, o dan oruchwyliaeth Mrs Beth Lewis, wedi bod wrthi yn creu mygydau aml-ddefnydd tair haen liwgar sy'n cydymffurfio a'r gofynion statudol. Mae croeso i'ch plentyn brynu'r rhain o Neuadd yr Ysgol ar ddechrau'r diwrnod dros y dyddiau nesaf - y cyntaf i'r felin gaiff falu! Awgrymwn gyfraniad o £5 ân 2 fwgwd, gyda'r elw yn mynd i elusen leol.

DOD Â THECLYNNAU I'R YSGOL

Bydd modd i fyfyrwyr a disgyblion **Blynyddoedd 10 - 13** ddod â'u **cliniaduron** a'u **tabledi** i'r ysgol er mwyn ymgysylltu â Wi-fi yr Ysgol. Bydd hyn o fantais mewn nifer o bynciau, er mwyn cyflawni gwaith a derbyn gwybodaeth neu ymchwilio. Gofynnwn i chi ystyried caniatáu i'ch plant ddod a'u teclynnau i'r Ysgol er mwyn manteisio ar y cyfle. Bydd disgyblion yn dod â nhw ar y safle ar risg eu hunain.

GWERSI'R CHWECHED

Am gyfnod ar ddechrau'r tymor, ni fydd myfyrwyr y Chweched yn teithio rhwng Ysgol Gyfun Gwyr ac Ysgol Bryntawe i dderbyn gwersi yn y pynciau sy'n cael eu cynnig yn llawn neu yn rhannol yn yr ysgol arall. O ganlyniad, bydd gwersi'r Chweched ar draws y Bartneriaeth yn cael eu cynnal o hirbell, ar Microsoft Teams. Mae hyn wedi dechrau digwydd yn llwyddiannus gyda rhai gwersi Blwyddyn 12 ac 13 ddoe.

RHIENI AR Y SAFLE

Yn unol â'r bwriad i gyfyngu ar y perygl o ledaenu'r firws, gofynnwn i rieni gysylltu â'r Ysgol drwy e-bost yn y lle cyntaf os am drafod unrhyw agwedd o fywyd eich plentyn yn yr ysgol. Gan fod staff dysgu yn symud yn gyson rhwng stafelloedd oherwydd cyfyngderau'r sefyllfa bresennol, bydd e-byst yn ddull mwy effeithiol o gyfathrebu gyda staff yr Ysgol. Bydd Pennaeth Blwyddyn eich plentyn yn ymateb i'ch neges mor fuan â phosib. Ni fydd modd cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb ar y safle am y tro. Os oes rhaid i chi ddod i'r Ysgol i gasglu eich plentyn, gofynnwn i chi aros y tu allan i ddrws y Dderbynfa wrth aros. Diolch ymlaen llaw i chi am eich cydweithrediad yn hyn o beth.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

CYSYLLTU Â'R YSGOL

Os oes cwestiynau neu ymholiadau gyda chi, mae modd i chi gysylltu gyda Swyddfa'r ysgol (01792 872403) neu'r Pennaeth Blwyddyn perthnasol, gan ddefnyddio'r cyfeiriadau e-bost canlynol:

Bl 7 - Miss Branwen Dafydd – DafyddB9@hwbcymru.net
Bl 8 - Mr Dai Long – LongD4@hwbcymru.net
Bl 9 - Mr Iwan Thomas – ThomasI266@hwbcymru.net
Bl 10 - Mrs Sioned James – JamesS252@hwbcymru.net
Bl 11 - Mrs Joanna Connick – ConnickJ3@hwbcymru.net
Bl12/13 - Mrs Annette Tilson - TilsonA1@hwbcymru.net (Pennaeth y Chweched)
- Mrs Jan Ohlsson Jones – OhlssonJ1@hwbcymru.net (Is-bennaeth y Chweched)

Mae modd i chi hefyd i gysylltu â'n Swyddog Bugeiliol ac Ymddygiad Mr Brian Thomas ar ThomasB514@hwbcymru.net.

Byddwn fel ysgol yn dibynnu ar eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad ar hyd y flwyddyn sydd o'n blaen. Fel ysgol anelwn at gadw aelodau'r gymuned yn iach a diogel; bwriadwn barhau i gynnal y safonau uchaf.

Edrychwn ymlaen at gydweithio'n agos gyda chi unwaith eto fel rhieni a gofalwyr.

Pennaeth

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

5 September 2020

Dear Parent / Carer,

A warm welcome back at the start of the new school year. A special welcome to parents and carers who are new to the School.

THANKS TO THE STAFF

In the first instance, I would like to sincerely thank all the staff at the School for their support and patience as we prepared and adapted the School buildings to fully welcome the pupils back. Their desire to return to the Classroom to educate your children was evident; our staff enjoy the company of your children and are determined to do their best to provide the very best education over the coming weeks and months.

2020 EXTERNAL EXAMINATION RESULTS

Congratulations to all pupils on their GCSE and A Level results, which are the culmination of hard work and perseverance. Thank you as parents for your support along the way and your willingness to work with the school - we are so aware of this important partnership. We also thank the staff for their guidance and commitment to the students over the past year.

THE RETURN OF YEAR 7 AND THE SIXth FORM

We had two enjoyable days with Year 7 and the Sixth Form on Thursday and Friday. On Thursday, 190 new pupils were welcomed to year 7, and 85 pupils returned to join Year 12 of the Gŵyr / Bryn Tawe Sixth Form Partnership; so 180 students in the Sixth Form in all. The total school population for 2020-21 is therefore 1112 pupils.

Hundreds of pupils on site succeeded in understanding and applying the instructions given to them regarding their health and safety, and we look forward to welcoming Year 11, Year 10, Year 9 and Year 8, in turn, over the next few days.

STAFFING

We welcome some new teachers to the school - Miss Bethan Jones (Mathematics), Mr Liam Bunyan (Mathematics), and Mrs Sara Morgan (English). Miss Manon Pirotte and Miss Ellie Thomas join the teaching assistants' team. We wish them well at the start of their time in Ysgol Gyfun Gŵyr.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

PARENTS' SURVEY 2019-20

There was a very positive response to the parent opinion survey again this year and your constructive and critical comments were appreciated. Based on the findings of the survey, it is seen that most parents feel happy with the school's provision. We will work hard to respond to suggestions you have made where possible. The **Grievance Policy** can be found on the school website and if you have a complaint that you would like to discuss, please contact the Head or other members of the Senior Management Team.

RESOURCES AND EQUIPMENT

Please ensure that your child brings a pencil case to school every day containing the necessary stationery such as biros, pencils, rubbers, highlighters and ruler. Additional items such as glue will also be a great help in the classroom. YOUR CHILD CANNOT SHARE RESOURCES WITH ANOTHER PUPIL ON ANY ACCOUNT.

Maths equipment is also required which includes a scientific calculator, protractor and compass. A Maths toolkit can be purchased in the Department for £3 and a scientific calculator for £7. A very useful bilingual Numeracy Booklet is also on sale in the Maths Department for £5.

SCHOOL UNIFORM AND PUPILS' PROPERTY

Compliance with the official school uniform is very important - black trousers or skirt (not jeans, leggings), black shoes (no other colour), black jumper with school badge (no 'hoody'), blue polo shirt with the school logo. Please put name tags on all clothing and resurces so that we can return lost property straight to the owner. Parents are welcome to contact the Office to request lost property.

MOBILE PHONE POLICY

Pupils are allowed to bring a mobile phone to school for safety reasons. However they must be used responsibly at all times. Mobile phones should not be used in lessons and if used without permission, the phone will be disinfected and taken frm the pupil by the teacher and placed safely in the office until a parent contacts the school to get it back.

ATTENDANCE

The target for each individual is 100%. Missing even one day of school without a very good reason unnecessarily disrupts your child's education. We ask for your support in ensuring that your child

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg

aims to attend school every day from September until July, especially because of the period of formal education lost since Easter.
However, if your child is ill, or exhibits any Covid-19 symptoms, we ask that you keep them at home, only returning to School when fully recovered.

BEHAVIOUR
We take pride in our pupils' ability to behave appropriately on the School site. We will require pupils and students to comply with our high expectations in this regard, and would appreciate it if you could emphasise this to your children when they come back to School. Due to the current situation, any misconduct will be dealt with strictly in the hope that such situations are few and far between.

MASKS
Every child is required to bring a mask to school from Monday onwards, and a number of School staff, under the supervision of Mrs Beth Lewis, have been creating colourful multi-use masks that conform to the statutory requirements. Your child is welcome to buy these in the School Hall at the start of the day over the next week - first come first served! We suggest a donation of £5 for 2 masks, with proceeds going to a local charity.

BRINGING DEVICES TO SCHOOL
This term, students and pupils in Years 10 - 13 will be able to bring their laptops and tablets to school to connect with the School's Wi-Fi. This may be beneficial in a number of subjects your child may be studying, both for completing work, gathering information or conducting research. Please consider allowing your children to bring their gadgets to school to take advantage of this opportunity. Pupils bring their devices on site at their own risk.

SIXTH FORM LESSONS
For a period at the beginning of term, Sixth Form students will not be travelling between Ysgol Gyfun Gŵyr and Ysgol Bryntawe for lessons in the subjects which are taught either wholly or partly on the other school site. As a result, Sixth Form lessons across the Partnership will be held remotely, on Microsoft Teams. This happened successfully (with some teething problems!) with some Year 12 and 13 lessons yesterday.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

PARENTS ON SITE

In line with our aim of limiting the risk of spreading the virus, parents are asked to contact the School by email in the first instance if they wish to discuss any aspect of their child's education. As teaching staff are regularlytly moving between rooms due to the limitations of the current situation, emails will be a more effective method of communicating with School staff. Your child's Head of Year will respond to your message as soon as is possible. Face to face meetings will not be possible on site for the time being. If you have to come to School to collect your child, we ask that you wait outside the Reception door while waiting. Thank you very much for your co-operation in this regard.

CONTACTING THE SCHOOL

If you have any questions or queries, you can contact the school office (01792 872403) or the relevant Head of Year, using the following email addresses:

Year 7 - Miss Branwen Dafydd - DafyddB9@hwbcymru.net
Year 8 - Mr Dai Long - LongD4@hwbcymru.net
Year 9 - Mr Iwan Thomas - ThomasI266@hwbcymru.net
Year 10 - Mrs Sioned James - JamesS252@hwbcymru.net
Year 11 - Mrs Joanna Connick - ConnickJ3@hwbcymru.net
Year 12 / 13 - Mrs Annette Tilson - TilsonA1@hwbcymru.net (Head of Sixth Form)
- Mrs Jan Ohlsson Jones - OhlssonJ1@hwbcymru.net (Deputy Head of Sixth Form)

You can also contact our Pastoral and Behaviour Officer Mr Brian Thomas on ThomasB514@hwbcymru.net

As a school we will depend on your support and co-operation throughout the year ahead. As a school we aim to keep all members of the community healthy and safe; we intend to continue to maintain the highest possible standards in all that we do.

We look forward to working closely with you again as parents and carers.

Head

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Gwobr Cwricwlwm Ysgolion Schools Curriculum Award
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
We Are A ... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg